# Cofnodion cryno - Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol

Lleoliad:

**Ystafell Bwyllgora 3, Senedd**

**a fideo gynadledda drwy Zoom**

Dyddiad: 14 Mai 2025

Amser: 09.33 - 12.04

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:

http://senedd.tv/cy/15480

# Hybrid

## Yn bresennol

| Categori | Enwau |
|---|---|
| Aelodau o'r Senedd: | Peter Fox AS (Cadeirydd)<br>Mabon ap Gwynfor AS<br>John Griffiths AS |
| Tystion: | |
| Staff y Pwyllgor: | Sarah Beasley (Clerc)<br>Karen Williams (Dirprwy Glerc)<br>Sarah Hatherley (Ymchwilydd) |

## 1 Cyflwyniadau, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

1.1 Croesawodd y Cadeirydd yr Aelodau i'r cyfarfod.

1.2 Cafwyd ymddiheuriadau gan Joyce Watson AS.

1.3 Diolchodd y Cadeirydd i Russell George AS am ei waith ar y Pwyllgor a dymunodd yn dda iddo yn ei rôl newydd.

1.4 Talodd y Cadeirydd deyrnged i Claire O'Shea a chydnabod ei chyfraniad amhrisiadwy i ymchwiliad y Pwyllgor i ganser gynaecolegol, a'i phenderfyniad i weld newidiadau yn cael eu gwneud i'r ffordd y mae iechyd menywod yn cael ei drin.

## 2 Gwasanaethau offthalmoleg yng Nghymru – sesiwn dystiolaeth – panel 5

2.1 Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan Iechyd a Gofal Digidol Cymru; a chynrychiolwyr y gyfarwyddiaeth ddigidol o Fwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro.

## 3 Gwasanaethau offthalmoleg yng Nghymru – sesiwn dystiolaeth – panel 6

3.1 Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan gynrychiolwyr byrddau iechyd lleol.

## 4 Papurau i'w nodi

### 4.1 Llythyr at Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn gofyn am y wybodaeth ddiweddaraf am y camau sy'n cael eu cymryd i wella'r ffordd y mae GIG Cymru yn ymdrin â chwynion

4.1.1 Nododd y Pwyllgor y llythyr.

### 4.2 Ateb gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol ynghylch y camau sy'n cael eu cymryd i wella'r ffordd y mae GIG Cymru yn ymdrin â chwynion.

4.2.1 Nododd y Pwyllgor yr ymateb.

### 4.3 Ymateb Llywodraeth Cymru i adroddiad y Pwyllgor ar y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Tybaco a Fêps

4.3.1 Nododd y Pwyllgor yr ymateb.

### 4.4 Llythyr gan elusen gofal canser Tenovus ynghylch cais i gynnal ymchwiliad byr i weithredu ar adroddiad y Pwyllgor ar ganserau gynaecolegol.

4.4.1 Nododd y Pwyllgor y llythyr.

**4.5 Llythyr at elusen Gofal Canser Tenovus ynghylch cais i gynnal ymchwiliad byr i weithredu ar adroddiad y Pwyllgor ar ganserau gynaecolegol.**

4.5.1 Nododd y Pwyllgor y llythyr.

**4.6 Llythyr gan elusen gofal canser Tenovus ac Ymgyrch Claire, ynghylch cais am ymchwiliad byr i weithredu ar adroddiad y Pwyllgor ar ganserau gynaecolegol.**

4.6.1 Nododd y Pwyllgor yr ymateb.

**4.7 Llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor Deisebau ynghylch deiseb rhif: P-06-1435 Rydym yn galw ar Lywodraeth Cymru i ymrwymo i roi sgrinio canser yr ysgyfaint wedi'i dargedu ar waith**

4.7.1 Nododd y Pwyllgor y llythyr.

**4.8 Llythyr gan y Gweinidog Plant a Gofal Cymdeithasol mewn ymateb i adroddiad craffu yng nghyfnod 1 ar y Bil Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Cymru) ac argymhellion sy'n gysylltiedig â'r darpariaethau dileu elw sydd wedi'u cynnwys yn y ddeddfwriaeth**

4.8.1 Nododd y Pwyllgor y llythyr.

**4.9 Llythyr at Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru yn gofyn am wybodaeth i lywio'r ymchwiliad i atal iechyd gwael - gordewdra**

4.9.1 Nododd y Pwyllgor y llythyr.

**4.10 Ymateb gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru yn darparu gwybodaeth i lywio'r ymchwiliad i atal iechyd gwael - gordewdra**

4.10.1 Nododd y Pwyllgor yr ymateb.

**4.11 Llythyr gan y Gweinidog Plant a Gofal Cymdeithasol mewn ymateb i argymhelliad 9 yn yr adroddiad ar y Bil Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Cymru), ar y cynnydd a wneir o ran y newid i fodel dielw.**

4.11.1 Nododd y Pwyllgor y llythyr.

**4.12 Llythyr at Brif Weithredwr GIG Cymru ynghylch y Rhwydwaith Clinigol Strategol Cenedlaethol ar gyfer Diabetes y GIG**

4.12.1 Nododd y Pwyllgor y llythyr.

**4.13 Llythyr gan Brif Weithredwr GIG Cymru ynghylch y Rhwydwaith Clinigol Strategol Cenedlaethol ar gyfer Diabetes y GIG**

4.13.1 Nododd y Pwyllgor yr ymateb.

## 5 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42(ix) i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod hwn

5.1. Cytunodd y Pwyllgor â'r cynnig.

## 6 Gwasanaethau Offthalmoleg yng Nghymru: Trafod y dystiolaeth

6.1 Trafododd y Pwyllgor y dystiolaeth a ddaeth i law.